**11.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **11C210C** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mrs Shirley Cooke**
**c/o Mr Harry Jones**
**Swn Y Mor**
**56 Llaneilian Rd**
**Amlwch**
**Ynys Mon**
**LL 68 9HU**

Codi gweithdy\storfa yn Erection of a workshop\store at

3 Pencae, Pentrefelin, Amlwch



**Pwyllgor Cynllunio: 07/09/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r cais hwn wedi ei gyflwyno gan Swyddog sydd wedi ei gyflogi gan yr Awdurdod hwn. O dan dermau’r Cyfansoddiad rhaid adrodd ar y cais i’r Pwyllgor Cynllunio i’w ystyried a’i benderfynnu.

Mae’r cais wedi ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy’n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle’r cais yn ffurfio rhan o ardd ffrynt 3 Pen Cae, Pentrefelin, Amlwch.

Cais yw hwn i godi gweithdy/stôr yn yr ardd ffrynt.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yw – a yw lleoliad, dyluniad a edrychiad allannol yr gweithdy/storfa arfaethedig yn dderbyniol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyfredinol
42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 – Dylunio

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.
Dwr Cymru – Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.
Cyngor Cymuned – Cefnogi
Priffyrdd – Caniatad Amodol
Draenio – Sylwadau

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

11C210 – Codi sied gardd yn 3 Pencae, Pentrefelin.

Caniatau – 29.8.90

11C210A – Addasu ac ehangu yn 3 Pencae, Pentrefelin.
Caniatau – 31.7.91

11C210B – Addasu ac ehangu yn 3 Pencae, Pentrefelin.
Caniatau – 12.9.94

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Cais yw hwn i godi gweithdy/stôr yn ffrynt 3 Pencae, Pentrefelin.

Bydd y gweithdy/stôr arfaethedig yn mesur 6.2m x 3.2m a bydd wedi'i gorffen i fatsio'r annedd gyfredol gyda render wedi'i beintio a tho llechi Cymreig.

Ystyrir bod gosodiad, dyluniad ac edrychiad allanol y gweithdy/stôr arfaethedig yn dderbyniol ac nid ydym yn ystyried y bydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau eiddo preswyl cyfagos nac ar gymeriad ac edrychiad yr ardal.

**7. Casgliad**

Ystyrir fod y bwriad arfaethedig yn dderbyniol o osod amodau.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau.**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid defnyddio llechi naturiol o liw unffurf yn ddeunydd to ar yr adeilad(au) arfaethedig.**

Rheswm: Sicrhau y bydd y datblygiad yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid i orffen waith allanol yr estyniad arfaethedig weddu i liw ac ansawdd yr adeilad presennol.**

Rheswm: Sicrhau y bydd y datblygiad yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Rhaid i'r datblygiad fod ar gyfer defnydd preifat yn unig a dim ar gyfer unrhyw ddefnydd masnachol o gwbl.**

Rheswm: Sicrhau y bydd y datblygiad yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 22.7.2011 o dan cais cynllunio rhif. 11C210C.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

31 – Tirwedd

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D3 – Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

EN1 – Cymeriad Tirwedd

TAN 12: Dylunio

CCA: Cyfarwyddyd ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.

**11.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **32C180** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mrs Delyth C. Owen**
**c/o Mr Gerwyn Williams**
**Bryn Clyd**
**Caergeiliog**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 3YG**

Cais amlinellol ar gyfer codi annedd ar dir ger

Outline application for the erection of a dwelling on land adjacent to

Pen y Bonc, Caergeiliog, LL65 3YF



**Pwyllgor Cynllunio: 07/09/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r ymgeisydd yn perthyn i aelod staff sy’n gweithio yn Adran y Rheolwr-gyfarwyddwr.

Mae’r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy’n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais amlinellol yw hwn i godi annedd o fath dormer ar wahân gyda’r holl faterion yn cael eu cadw wrth gefn i’w hystyried yn y dyfodol.

Mae’r annedd i’w lleoli yng nghefn yr annedd elwir yn Pen y Bonc ac Eglwys Dewi Sant sy’n ffryntio priffordd yr A5. Bydd mynediad ar hyd y trac preifat cyfredol sy’n gwasanaethu Pen y Bonc a Pen y Graig.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion ynglŷn â’r cais yw - a yw’r cynnig yn cydymffurfio gyda’r polisïau cyfredol, a fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar ddeiliaid eiddo cyfagos, diogelwch y briffordd ac a ellir draenio’r safle’n ddigonol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 42 – Dyluniad
Polisi 48 – Meini Prawf Datblygu Tai
Polisi 50 – Anheddau Rhestredig

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D28 – Dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi HP4 – Pentrefi
Polisi SG4 – Gwaredu Carthffosiaeth
Polisi SG6 – Rhediad Dwr Wyneb

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol** – Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig.

**Polisi Cynllunio Cymru (Cyfrol 4 – Chwefror 2011)**

**Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/99** – Defnyddio Carthffosiaeth gyda Thanciau Septig mewn Datblygiadau newydd.

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb hyd yn hyn.

Cyngor Cymuned – Dim ymateb hyd yn hyn.

Dwr Cymru – Yn argymell caniatâd amodol

Priffyrdd – Yn argymell caniatâd amodol

Draenio – Yn gofyn am fwy o fanylion

Asiantaeth yr Amgylchedd – Dim ymateb hyd yn hyn.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Dim gwrthwynebiad

Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol – Sylwadau

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn dwy ffordd i'r cais. Rhoddwyd rhybudd ger y safle ac anfonwyd llythyrau i ddeiliaid eiddo cyfagos. Dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 26 Awst 2011. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw lythyrau wedi'u derbyn yn yr adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Cyd-destun Polisi** - Mae'r safle ym mhentref Caergeiliog sydd wedi'i ddynodi yn anheddiad rhestredig o dan Bolisi 50 Cynllun Lleol Ynys Môn sy'n caniatáu ar gyfer datblygu plotiau unigol o fewn neu ar ffin y pentref. Mae'r safle o fewn ffin ddatblygu Caergeiliog fel ac y mae ym Mholisi HP4 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Gan bod y safle yn gorwedd ger y rhan ddatblygedig o'r pentref, mae'r cynnig yn cydymffurfio gyda Pholisi 50 o Gynllun Lleol Ynys Môn.

**Effaith ar ddeiliaid eiddo cyfagos** - Mae yna fynedfa sy'n rhedeg ger ochr a chefn yr annedd gyfredol yn Pen y Bonc. Mae'r fynedfa hon yn gwasanaethu'r ddau eiddo cyfredol a bydd yn cael ei ddefnyddio fel mynedfa i'r annedd newydd arfaethedig. Mae yna bellter o tua 20 metr rhwng yr annedd gyfredol nesaf a'r annedd arfaethedig ac felly ni fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar ddeiliaid yr eiddo cyfagos.

**Diogelwch y Briffordd** - Ceir mynediad i'r safle ar hyd y fynedfa bresennol sy'n gwasanaethu Pen y Bonc a Pen y Graig. Fe ymgynghorwyd gyda'r Awdurdod Priffyrdd ac nid yw wedi lleisio unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig o gynnwys yr amodau priffyrdd.

**Materion Technegol** - Fe ddywedodd yr ymgeisydd ar y cychwyn mai'r dull o gael gwared o

garthffosiaeth fyddai trwy danc septig.  Fe ddywedwyd wrth yr ymgeisydd bod yna brif garthffosiaeth gerllaw ac felly y dylid defnyddio'r brif garthffosiaeth.  Mae asiant yr ymgeisydd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon cysylltu i'r brif garthffosiaeth.

**7. Casgliad**

Mae'r cynnig wedi'i leoli o fewn pentref Caergeiliog ac y mae'n cydymffurfio gyda'r polisïau cyfredol. Mae yna ddigon o le ar y safle i allu cymryd yr annedd arfaethedig heb effeithio ar fwynderau deiliaid yr eiddo cyfagos.  Ni fydd y cynnig yn cael effaith niweidiol ar ddiogelwch y briffordd ac fe ellir draenio'r safle yn ddigonol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid wrth gymeradwyaeth y Cyngor cyn cychwyn gweithio ar y materion neilltuol isod sef lleoliad, graddfa, gwedd yr adeilad(au) a thirlunio'r safle.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Rhaid ymgeisio am ganiatâd i'r mater (ion) neilltuol y cyfeirir atynt uchod ymhen tair blynedd o'r dyddiad y rhoddir y caniatâd hwn.**

Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(03) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo erbyn un o'r ddau ddyddiad isod, pa un bynnag sydd yn digwydd olaf, sef:- (a) o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn neu (b) o fewn dwy flynedd i'r dyddiad pryd rhoddi'r caniatâd terfynol i'r mater(ion) wrth gefn a nodir neu, pan fo caniatâd yn cael ei roddi ar ddyddiadau gwahanol, y dyddiad pryd caniatawyd yn derfynol yr olaf o'r mater(ion) wrth gefn.**
Rheswm:  Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(04) Rhaid cysylltu'r cynnig i'r garthffosiaeth gyhoeddus.  Rhaid cyflwyno manylion am y pwyntiau cyswllt i'r garthffos gyhoeddus fel rhan o unrhyw gais llawn neu fanwl.**

Rheswm: I sicrhau fod y safle yn gallu cael ei ddraenio.

**(05) Rhaid i ddŵr wyneb a dŵr budr ddraenio o'r safle ar wahân.**

Rheswm: Er mwyn gwarchod y cyfan o'r garthffos gyhoeddus.

**(06) Ni chaniateir i ddŵr wyneb lifo yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus onibai y gytunwyd yn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Atal gormod o ddŵr rhag llifo i'r sustem garthffosiaeth gyhoeddus, gwarchod iechyd a diogelwch preswylwyr a sicrhau na chaiff yr amgylchedd ei niweidio.

**(07) Ni chaiff dŵr draenio tir arllwys yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.**

Rheswm: Rhwystro gormod o ddŵr rhag llifo i'r system garthffosiaeth gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

**(08) Bydd raid sicrhau bod gosodiad y fynedfa a dull ei hadeiladu yn cydymffurfio'n llwyr gyda y cynlluniau a gyflwynwyd cyn dechrau ar y defnydd y rhoddir caniatâd iddo yma ac wedyn bydd raid cadw'r fynedfa yn glir o bob rhwystr parhaol a'i defnyddio i ddibenion mynediad yn unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(09) Rhaid cwblhau'r fynedfa gyda wyneb bitwmen am y 5 metr cyntaf o ymyl agosaf y Brifffordd Sirol gan sicrhau bod y system draenio dwr wyneb wedi ei chwblhau ac yn gweithio'n berffaith cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(10) Ni chaniateir ar unrhyw adeg i wal/gwrych/ffens derfyn presennol y briffordd sy'n gwynebu Pen y Bonc nac unrhyw ffin terfyn newydd a godir yn wynebu safle'r datblygiad fod yn uwch nag 1 metr uwchlaw lefel cerbydlon y Ffordd Sirol gyfagos ac ni chaniateir codi dim sy'n uwch na'r uchder yma o fewn 2m. i'r cyfryw derfyn.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(11) Rhaid cwblhau'r lle parcio ceir yn gwbl unol â'r manylion fel a gyflwynwyd cyn cychwyn ar y defnydd a ganiateir yma ac wedyn bydd raid cadw'r lle parcio i'r dibenion hyn yn unig.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(12) Rhaid adeiladu'r fynedfa gyda'i graddiant yn ddim mwy nag 1 mewn 20 am y 5 metr cyntaf yn ol o ymyl agosaf y gerbydlon gyfagos.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(13) Ni chaniateir i ddwr wyneb o gwrtil y safle lifo i'r Ffordd Sirol. Rhaid cwblhau draeniad y briffordd yn y fynedfa ar hyd y ffryntiad i gwrdd â gofynion yr Awdurdod Priffyrdd cyn cychwyn ar unrhyw waith ar weddill y datblygiad.**

Rheswm: Cydymffurfio a gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(14) Bydd raid cyflwyno, fel rhan o gais llawn neu fanwl, fanylion am lefelau presennol ac arfaethedig y tir, lefelau gorffenedig y llawr a chroesdoriadau.**

Rheswm: Er lles mwynderau.

**(14) Rhaid i'r annedd a ganiateir yma fod wedi'i hadeiladu i gyrraedd isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 a chyrraedd o leiaf 1 o gredydau o dan gategori Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' - yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy: Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (Fersiwn 3). Rhaid adeiladu'r datblygiad yn hollol unol â'r asesiad a'r ardystiad fydd wedi'i gymeradwyo.**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(15) Ni chaniateir dechrau adeiladu'r annedd a ganiateir yma hyd nes bo 'Tystysgrif Interim' wedi'i chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac wedi derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn**

**ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac o leiaf 1 o gredydau o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (Fersiwn 3).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(16) Cyn bod neb yn byw yn yr annedd a ganiateir yma, rhaid cyflwyno 'Tystysgrif Terfynol' Cod Cartrefi Cynaliadwy i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a derbyn ei ganiatâd ysgrifenedig, yn ardystio bod isafswm Cod Cartrefi Cynaliadwy Lefel 3 ac isafswm o 1 credyd o dan 'Ene 1 - 'Graddfa Allyrru Annedd' wedi'i gyrraedd ar gyfer yr annedd yn unol â gofynion y Cod Cartrefi Cynaliadwy : Cyfarwyddyd Technegol 11 Tachwedd 2010 (Fersiwn 3).**

Rheswm: I liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a sicrhau geynwch yn erbyn newidiadau yn yr hinsawdd a ragwelir i'r dyfodol.

**(17) Bydd y datblygiad a ganiateir trwy'r caniatâd hwn yn cael ei wneud yn gwbl unol a'r cynlluniau, trawsdoriadau a'r drychiadau y mae angen eu caniatáu gan yr awdurdod cynllunio lleol dan yr amodau sydd wedi eu gosod.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**11.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **37C170C** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr. Peter S. Rogers**
**Bodrida**
**Brynsiencyn**
**Llanfairpwll**
**Ynys Môn**
**LL61 6NZ**

Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid ac offer yn

Full application for the erection of an agricultural shed for the housing of livestock and machinery at

Cefn Dderwen, Brynsiencyn



**Pwyllgor Cynllunio: 07/09/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(EH)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais wedi cael ei gyflwyno gan Aelod Lleol.

Mae'r cais wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.19.4 y Cyfansoddiad.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i godi sied amaethyddol i gadw anifeiliaid a pheiriannau o fewn complecs y fferm yn Cefn Dderwen, Brynsiencyn.

Mae safle'r cais mewn lleoliad gwledig o fewn Brynsiencyn, ac y mae yna ychydig o anheddau yn yr ardal.  Nid yw'r safle i'w weld o'r briffordd gyhoeddus ac mae yna lethr at i lawr tuag at Cefn Dderwen.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion sydd angen eu hystyried yma yw dyluniad y sied amaethyddol arfaethedig a'i lleoliad yn y tirlun a'r effaith ar y tirlun.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 31 – Ardal Tirwedd Arbennig
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, safle a dyluniad
Polisi D29 – Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad
Polisi EN1 – Cymeriad y Dirwedd

TAN 6: Datblygu yn Ymwneud â Thir Amaethyddol

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol: Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru / Welsh Water: Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Cymuned: Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Priffyrdd: Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Asiantaeth yr Amgylchedd: Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Iechyd Amgylcheddol: Sylwadau

Draenio: Sylwadau

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynnig trwy roi rhybudd ar y safle ynghyd â dosbarthu llythyrau unigol i eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau yw 9 Medi 2011. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyr wedi cael ei dderbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

37C170: Addasu adeiladau allanol yn ddau fwthyn gwyliau a gosod tanc septig yn Cefn Dderwen, Brynsiencyn. Caniatáu – 05.11.09

37C170A/SCR: Barn sgrinio i leoli twrbin gwynt 18 metr o uchder ar dir yn Cefn Dderwen, Brynsiencyn. Dim angen EIA – 19.11.10.

37C170B/SCR: Barn sgrinio i leoli twrbin gwynt 500kw 40 metr o uchder ac is-orsaf ar dir yn Cefn Dderwen, Brynsiencyn. Dim angen EIA – 30.06.11.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae'r egwyddor o ddatblygu i bwrpasau amaethyddol yn cael ei dderbyn mewn polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, ac felly mae pa mor dderbyniol yw'r datblygiad yn dibynnu ar feini prawf datblygu.

Mae'r sied arfaethedig wedi ei dylunio fel ei bod yn ymddangos fel dwy sied gyda lle cerdded wedi'i orchuddio'n rhannol rhwng y ddwy. Ystyrir bod y deunyddiau y bwriedir eu defnyddio yn dderbyniol gan eu bod yn matsio'r siediau cyfredol ar y safle.

Ystyrir bod lleoliad y sied arfaethedig yn dderbyniol gan ei bod wedi ei lleoli ger y siediau cyfredol ar y fferm. At hyn, o ystyried topograffi'r safle sydd yn gwyro at i lawr i gyfeiriad Cefn Dderwen, nid yw'r siediau presennol ond i'w gweld yn rhannol o'r briffordd gyhoeddus ac y mae yna sgrinio naturiol gyda gwrychoedd a choed o amgylch. Felly nid wyf yn ystyried y byddai lleoli sied ychwanegol yn y lleoliad hwn yn achosi unrhyw effeithiau annymunol ar y dirwedd.

**7. Casgliad**

Ni fydd y sied arfaethedig yn cael effaith ormodol ar y tirwedd oddi amgylch nac yn cael effaith ar fwynderau'r ychydig anheddau sydd yn yr ardal. Ystyrir bod y deunyddiau arfaethedig yn dderbyniol yn y lleoliad hwn.

O gymryd yr uchod i gyd i ystyriaeth a hefyd yr holl ystyriaethau cynllunio eraill sydd o bwys, a chyn belled ac na cheir unrhyw sylwadau croes wedi i'r dyddiad rhybuddio ddod i ben, fy argymhelliad i yw y dylid caniatáu'r cais.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Caiff yr adeilad a ganiateir trwy hyn, ei ddefnyddio at anghenion amaethyddol yn unig, fel y diffinnir hynny yn Adran336 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac nid am unrhyw fath o fusnes na defnydd masnachol.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau y bydd y datblygiad bob amser er lles gorau'r diwydiant amaethyddol.

**(03) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 08/08/11 o dan cais cynllunio rhif. 37C170C.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim